

COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU TACHWEDD 26 2020

Presennol : Cyngorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Seimon Brooks, Ian Jones, Nia Jeffreys, Llywelyn Rhys, Aled Griffith, Marian Roberts (Clerc)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Gwilym Jones.

1. Llwybrau

Nodwyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu hadrodd i'r Clerc – ar wahân i'r ffaith fod y llwybrau i gyd yn fwdlyd oherwydd y glaw diweddar.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth a chadw llygad ar gyflwr y llwybrau.

2. Cae Bodawen

Nodwyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu hadrodd i'r Clerc – ar wahân i'r ffaith fod yno byllau dŵr oherwydd y glaw diweddar. Canmolwyd safon uchel y gwaith o atgyweirio'r giât wrth y fynedfa a diolchwyd i'r cyn Clerc Glenda Burke am drefnu'r gwaith ar y fynedfa.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth a chadw llygad ar gyflwr y cae chwarae.

3. Bryn Coffa

Nodwyd fod Bryn Coffa wedi bod yn drwsiadus a thaclus iawn ar gyfer y gwasanaeth ar Sul y Cofio.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth a chadw llygad ar gyflwr y llecyn.

Yn ôl yr arfer bydd y Clerc yn clirio'r plethdorchau ym mis Ionawr.

4. Cae Pawb

Nodwyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu hadrodd i'r Clerc a bod popeth i weld yn rhedeg yn esmwyth iawn gyda phwyllgor y rhandiroedd. Ni thrafodwyd pris am blot felly cymerir fod pris 2020-21 o £15 am blot llawn a £7.50 am hanner plot yn dal yn sefyll ar gyfer 2021-22.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth.

5. Llochesi Bws

Canmolwyd safon y lloches bws newydd wrth y stesion a nodwyd ei fod yn dipyn gwell na'r hen un. Trafodwyd ebost gan Alwyn Gruffydd oedd yn adrodd iddo gael sgwrs gyda Rhian Wynn Williams o Gyngor Gwynedd a bod gwaith ar y lloches newydd yn Nhremadog wedi ei atal am y tro tra maent yn ymgynghori gyda busnesau a phreswylwyr Tremadog ynglyn â lleoliad y lloches newydd . Mynegodd y Cyng. Selwyn Griffiths ei bod yn bwysig ystyried edrychiad y lloches newydd am iddo gael ei leoli mewn ardal Cadwraeth.

Mynegwyd hefyd fod problemau mynediad i'r anabl ac i famau gyda phlant ifanc oherwydd fod y palmentydd yn weddol gul ar ddwy ochr i'r ffordd.

Penderfynwyd : Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn pa fath o loches sydd ganddynt ar y gweill o ystyried fod y lleoliad o dan reolau cadwraethol.

Cynnig- Cyng. Selwyn Griffiths

Eilio – Cyng. Aled Griffith

6. Cerflun Mr. Maddocks

Nodwyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu hadrodd i'r Clerc a bod y cerflun mewn cyflwr da iawn. Nodwyd ei fod mewn lle da iawn o ran lleoliad gan iddo fod mor agos i'r datblygiad newydd yn Nhŷ Moelwyn. Oherwydd y datblygiad newydd yma nodwyd fod angen cadw llygad ar yr arwydd 'Porthmadog' ar y ffordd i mewn i'r dref gan mai eiddo Cyngor Tref Porthmadog ydi o.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth a chadw golwg ar y llecyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45yh.

